# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 17.12.13

**Yn bresennol**: Cyng. W. Tudor Owen, Cyng. Huw Edwards, Cyng. Ann Williams

**Hefyd yn bresennol:** PS483 Bill Coppack (Heddlu Gogledd Cymru), Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru), Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

--------------------------

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cyng W Tudor Owen. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO – LATE STOP, 13, FFORDD CAERGYBI, BANGOR**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Bipin Chowla, Cyng Chris O'Neal

**Aelodau Lleol:** Cyng June Marshall, Cyng Mair Rowlands

**Eraill**: Ms A G Davies (Preswylydd cyfagos) Cynghorydd Keith Marshall (Cyngor Dinas Bangor)

**Ymddiheuriadau**: Cynghorydd Dinas Bangor Rhys Taylor

Atgoffwyd pawb o'r drefn gwrandawiad ac o bedwar egwyddor y Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen eu hystyried wrth wneud penderfyniad.

Nodwyd bod y cais wedi bod o flaen panel ar yr 8fed o Dachwedd 2013. Nid oedd gan yr Is-bwyllgor yr awdurdod i roi gwrandawiad i'r cais gan fod tystiolaeth wedi ei gyflwyno ar ddechrau'r gwrandawiad yn profi bod rhybudd y cais i amrywio'r drwydded yn un diffygiol. Nid oedd yn crybwyll yr angen i werthu alcohol.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu cais, Late Stop, 13, Ffordd Caergybi, Bangor i wyro'r drwydded eiddo i ganiatáu ymestyniad ar yr oriau gweithgareddau trwyddedig safonol i ddarparu lluniaeth hwyr y nos a gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo.
Rhoddwyd manylion am yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau i'r cais gan Aelodau Lleol a Chyngor Dinas Bangor. Gwrthwynebwyd y cais ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus oherwydd y posibilrwydd o gynnydd mewn sbwriel a sŵn ar y stryd yn tarfu preswylwyr cyfagos. Mynegwyd pryderon yn ogystal y byddai ymestyniad mewn oriau yn arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn.

Nid oedd gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru, ond argymhellwyd cynnwys amodau ar y drwydded yn dilyn cytundeb â'r ymgeisydd mewn perthynas â theledu cylch cyfyng a goruchwylwyr drysau. Safbwynt yr Heddlu yw ei bod hi yn briodol i holl drwyddedau eiddo gwerthu lluniaeth hwyr y nos ym Mangor fod yn gyfartal o ran oriau gweithgaredd trwyddedig, er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nodir yn ogystal fod yr Heddlu yn cydnabod fod Bangor Uchaf yn ardal breswyl a bod yr ymgeisydd wedi cytuno i ymestyn yr oriau tuag at y penwythnos oherwydd hyn

Nid oedd ymateb wedi ei dderbyn gan y Gwasanaeth Tan ac Achub.

Ategodd y Rheolwr Trwyddedu bod y cais wedi ei ail gyflwyno i'r Cyngor 12.11.2013 a chadarnhawyd bod y geiriad ar y rhybudd a arddangoswyd ar yr eiddo yn gywir. Er hynny, ni ymddangosodd yr hysbyseb yn y Chronicle tan 12.12.2013. Nodwyd bod y dyddiad yma tu allan i'r amserlen statudol. O dan reoliad 25 o'r Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Trwyddedau Mangre a Thystysgrifau Mangre Clwb) 2005, mae gofyn i ymgeisydd ymhlith pethau eraill gyhoeddi hysbyseb o'r cais (i) mewn papur newydd newydd neu ddogfen gyffelyb, sydd yn cylchredeg yn ardal y fangre, a (ii) ar o leiaf un achlysur o fewn cyfnod o 10 diwrnod gwaith gan gychwyn gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddwyd y cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol (yn yr achos yma disgwylid i'r rhybudd ymddangos rhwng 15.11.2013 a 28.11.2013).

Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd / cynrychiolydd egluro'r sefyllfa. Nododd Mr Chowla ei fod wedi cyflwyno'r rhybudd i'r Chronicle 12.11.2013, ond awgrymwyd iddo hysbysu'r rhybudd yn y Daily Post. Cafodd ddyfynbris o £400 a phenderfynwyd bod hyn yn rhy ddrud. Ail gyflwynwyd y rhybudd i'r Chronicle ond nid oedd tystiolaeth bod y cais wedi ei hysbysebu yn ystod y cyfnod statudol.

Amlinellwyd gofynion y ddeddf gan y Cyfreithiwr – pwysleisiwyd bod rhaid cael rhybudd yn y papur newydd o fewn cyfnod priodol. Hyn yn un o'r gofynion statudol.

**PENDERFYNIAD: NID YW CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO LATE STOP, 13 FFORDD CAERGYBI, BANGOR YN DDILYS GAN NAD YW YN CYDYMFFURFIO A GOFYNION ADRAN 34 (5) O'R DDEDDF. YN UNOL Â GOFYNION Y DDEDDF NID OEDD YR IS-BWYLLGOR YN YSTYRIED BOD GANDDYNT AWDURDOD I BENDERFYNU AR Y CAIS O DAN ADRAN 35.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn bresennol, benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn hysbysu'r ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Hysbyswyd yr ymgeisydd y bydd angen iddo wneud cais o'r newydd.

## 5. CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO – PATRICK'S BAR, 57 - 59, FFORDD CAERGYBI, BANGOR

**Ar ran yr eiddo:** Mr Patrick Barry, Mr Tudur Owen

**Aelodau Lleol:** Cyng June Marshall, Cyng Mair Rowlands

**Eraill**: Ms A G Davies (Preswylydd cyfagos) Cynghorydd Keith Marshall (Cyngor Dinas Bangor)

**Ymddiheuriadau**: Cynghorydd Dinas Bangor Rhys Taylor

Atgoffwyd pawb o’r drefn gwrandawiad ac o bedwar egwyddor y Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen eu hystyried wrth wneud penderfyniad.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu cais, Patricks Bar 57 - 59 Ffordd Caergybi, Bangor i geisio am ymestyniad o oriau ar wahanol ddyddiau mewn perthynas â chyflenwi alcohol, cerddoriaeth wedi ei recordio, cerddoriaeth fyw a chyfleusterau ar gyfer creu cerddoriaeth. Yn ychwanegol, gofynnwyd am hawl i ychwanegu gweithgareddau trwyddedig mewn perthynas â pherfformiad dawns a chyflenwi lluniaeth hwyr y nos. Gofynnir hefyd am ymestyniad o hyd at awry n yr oriau cau ar gyfer y cyhoedd.

Yn ychwanegol i’r cais am ymestyniad oriau, gofynnwyd am ganiatâd i ddileu neu adolygu rhai o’r amodau yn Atodiad 2 o’r Drwydded gyfredol sy’n cyd fynd a’r Atodlen Weithredu ar gyfer y drwydded, fel a ganlyn

- dileu'r amod i beidio caniatáu mynediad i’r Cyhoedd i’r eiddo ar ôl 23:30

Rhoddwyd manylion am yr oriau cyfredol a’r oriau arfaethedig.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau i’r cais gan Aelodau Lleol, Aelodau Unigol Cyngor Dinas Bangor, Cymdeithas Bangor Uchaf a phreswylydd cyfagos. Gwrthwynebwyd y cais ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus. Mynegwyd pryderon y byddai ymestyniad mewn oriau yn arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn mewn ardal breswyl a bod yr ymestyniad yn amharu ar breswylwyr sydd wedi ei lleoli yn agos iawn i’r eiddo ac yn agos i anheddau ar gyfer pobl hŷn.

Nid oedd gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru, ond argymhellwyd cynnwys amodau ar y drwydded yn dilyn cytundeb â’r ymgeisydd mewn perthynas â theledu cylch cyfyng a goruchwylwyr drysau.

Nid oedd y Gwasanaeth Tan ac Achub wedi cynnig sylwadau.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau’r Is-bwyllgor a’r ymgeisydd ofyn cwestiynau i’r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i’r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i’r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau’r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau’r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgynghorai.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ymhelaethu ar ei gais. Hysbysodd ei fod yn cytuno â’r amodau a argymhellwyd gan yr Heddlu. Nododd hefyd bod patrymau cymdeithasu myfyrwyr yn newid a bod angen ymateb i’r ffaith bod myfyrwyr yn dod allan yn hwyrach. Nid oedd wedi derbyn unrhyw gwynion gan ei gymdogion ac nid oedd preswylwyr y llety gyda chefnogaeth (dros y ffordd) wedi gwrthwynebu’r cais. Ymhelaethodd gan egluro ei fod yn darparu boreau coffi i’r preswylwyr ac yn cefnogi nifer o weithgareddau yn y gymuned.
O ran newidiadau i’r drwydded, mae bwriad iddo gael cerddoriaeth fyw ar gyfer digwyddiadau penodol yn unig, nosweithiau Iau yn unig ar gyfer meic agored; anarferol iawn y buasai’n cynnal nosweithiau dawns ac o ran bwyd byddai yn darparu peiriant cŵn poeth Almaeneg. Mae gwydr gwydn wedi ei osod ar flaen yr adeilad i leihau sŵn ac arwydd yn y ffenestr yn gofyn i gwsmeriaid barchu eu cymdogion wrth fynd adref.

Mae’r ymgeisydd wedi cynnwys amodau mewn perthynas â rheoli niwsans sŵn yn ei gais.

Adroddodd cynrychiolydd o'r heddlu mai naw achos yn unig oedd wedi eu derbyn am yr eiddo ers 2000 – dim wedi eu cyflwyno eleni. Cydnabuwyd bod hyn yn nifer isel iawn a bod deilydd y drwydded yn barod iawn bob amser i gydweithredu.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiad gan ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr:

Nodwyd yn benodol y pwyntiau canlynol –

- Pryder bod cynnydd sylweddol yn y cais am drwydded cerddoriaeth. Awgrymwyd bod y sŵn (yn enwedig cerddoriaeth byw) yn mynd i effeithio ansawdd bywyd a mwynderau trigolion cyfagos.
- Cynnydd yn yr oriau chwarae cerddoriaeth yn golygu bod unrhyw aflonyddwch yn cael ei greu yn hwyrach yn y nos / oriau mân y bore.
- Cwsmeriaid yn symud i ffwrdd o'r eiddo ac o ganlyniad yn ymgynnull a chreu sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau preswyl.
- Yr amodau sŵn (oedd wedi eu cynnwys yn y cais) yn gymhleth a thechnegol iawn.
- Cais i gadw at yr amod o 'beidio caniatáu mynediad i'r cyhoedd i'r eiddo ar ôl 23:30'
- Rhaid ystyried y gymuned gyfan a chydnabod bod Bangor Uchaf yn ardal breswyl.
- O ran darpariaeth bwyd, awgrymwyd bod Bangor Uchaf, o ran maint, gyda gormod o ddarpariaeth lluniaeth hwyr y nos.

Cydnabuwyd bod llythyr wedi ei dderbyn gan y Cynghorydd Rhys Taylor (Cyngor Dinas Bangor) - ymddiheuriad wedi ei nodi.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y panel, nododd y Cynghorydd June Marshall a'r Cynghorydd Mair Rowlands, er eu holl bryderon, nad oedd ganddynt dystiolaeth o ddigwyddiadau penodol o niwsans cyhoeddus y mae modd eu priodoli i'r eiddo.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr aelodau o'r farn y dylid caniatáu'r cais. Cydymdeimlwyd a'r ymgynghorai, ond nid oedd cyfiawnhad dros beidio caniatáu y cais na rhagdybio problemau o'r eiddo. Nid oedd tystiolaeth chwaith i newid yr amod o safbwynt oriau cerddoriaeth wedi ei recordio ar benwythnosau.

Roedd y cais, ynghyd ag amodau'r heddlu yn gydnaws ac amcanion trwyddedu. .

**PENDERFYNWYD**
**Caniatáu gwyro trwydded eiddo PATRICKS BAR, 57 - 59 FFORDD CAERGYBI, BANGOR fel a ganlyn:**

- **Caniatáu ymestyniad o oriau ar wahanol ddiwrnodau mewn perthynas â chyflenwi alcohol, cerddoriaeth wedi ei recordio, cerddoriaeth fyw a chyfleusterau ar gyfer gwneud cerddoriaeth.**
  ***Cyflenwi alcohol - ymestyniad o hanner awr o 08:00 - 02:30 ar ddyddiau Gwener a***

***Sadwrn.***
***Cerddoriaeth Fyw - ymestyniad o awr o 19:00 - 01:00 ar nos Iau a hyd at ddwy awr o 19:00 - 02:00 ar nos Wener a nos Sadwrn.***
***Cerddoriaeth wedi ei recordio - ymestyniad o awr a hanner o 11:00 - 1:30 nos Sul i nos Fawrth; ymestyniad o ddwy awr o 11:00 - 2:00 ar nos Iau; ymestyniad o dair awr ar nos Wener a nos Sadwrn.***
***Darpariaeth gwneud cerddoriaeth - ymestyniad o 1 awr 0 10:00 - 1:00 ar nos Iau ac ymestyniad o ddwy awr o 10:00 - 02:00 ar nos Wener a nos Sadwrn***

- **Caniateir ychwanegiad i weithgareddau trwyddedig mewn perthynas â pherfformiad dawns a chyflenwi lluniaeth hwyr y nos.**
  ***Perfformiad dawns - cyflwyno ychwanegiad o 3 awr a hanner o 10:00 - 01:30 o nos Sul hyd at nos Fawrth ; pedair awr o 10:00 - 2:00 ar nos Fercher a nos Iau ; a phedair awr a hanner o 10:00 - 02:30 ar nos Wener a nos Sadwrn.***
  ***Darparu Lluniaeth - cyflwyno ychwanegiad o 2awr a hanner o 23:00 - 01:30 o nos Sul hyd nos Fawrth; tair awr o 23:00 - 02:00 ar nos Fercher a nos Iau a thair awr a hanner o 23:00 - 2:30 ar nos Wener a nos Sadwrn.***

- **Caniateir ymestyniad o hyd at awr yn yr oriau cau ar gyfer y cyhoedd.**
  ***Oriau agor a chau i'r cyhoedd – ymestyniad o hanner awr o 08:00 - 02:00 ar nos Sul hyd nos Fawrth; hanner awr o 08:00 - 02:30 ar nos Fercher a nos Iau ac ymestyniad o awr o 08:00 - 03:00 ar nos Wener a nos Sadwrn.***

- **Derbyn yr amodau a gyflwynwyd yn y cais gan yr ymgeisydd o safbwnyt rheoli swn cerddoriaeth**

- **Dileu amod i beidio caniatáu mynediad i'r cyhoedd i'r eiddo ar ôl 23:30.**

- **Derbyn holl argymhellion yr Heddlu fel ag y rhestrwyd isod:**

**a) Bod system teledu cylch cyfyng digidol yn cael ei osod ac yn gweithio i safon sy'n bodloni'r heddlu a'r awdurdod lleol a byddent yn monitro tu mewn a thu allan i'r adeilad.**
**b) Yn achos tu fewn i'r eiddo, bydd digon o gamerâu i recordio delweddau o'r holl le sydd ar gael i'r cyhoedd, ar wahân i'r toiledau.**
**c) Dylai goleuadau'r lleoliad fod o ansawdd da ac yn ddigon cryf i allu adnabod unigolion sy yn yr adeilad.**
**d) Bydd y system teledu cylch cyfyng yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 31 diwrnod.**
**e) Pan fydd yr heddlu a'r awdurdod lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau, bydd y delweddau'n cael eu rhoddi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn. Os na fyddai'r busnes yn gallu cydymffurfio â chais dan yr amod hwn, yna mae'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am yr adeilad fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd y drwydded yn cael ei hadolygu.**
**f) Rhaid bod o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawr lwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fydd yr eiddo ar agor.**
**g) Bod arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i dynnu sylw bod system teledu cylch cyfyng yn weithredol.**
**h) Y dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel er mwyn i'r heddlu allu eu harchwilio.**
**i) Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr heddlu a'r awdurdod lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir (gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi, os yn berthnasol).**
**j) Cedwir y gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr heddlu**

**neu'r awdurdod lleol. Ar ôl cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**

**k) Bydd goruchwyliwr drws wedi eu cofrestru yn gywir gyda'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch (SIA) ac y byddant yn arddangos bathodyn enw cywir.**

**l) Bydd yr eiddo hwn yn cyflogi o leiaf un goruchwyliwr drws a gofrestrwyd gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SÏA) bob nos Iau, nos Wener a nos Sadwrn o 22:00 hyd nes bydd yr eiddo yn cau i'r cyhoedd, oni bai bod yr eiddo wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig gan yr heddlu i beidio..**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn bresennol, benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn hysbysu'r ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd cyfarfod am 10:20am a daeth i ben am 1:25pm